Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Datganiad i'r Wasg

Gwobr Goffa Wil Petherbridge

Dydd Gwener yr Eisteddfod, am hanner dydd,
ar stondin Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, 616-617

Tudur Jones o Bontiets ger Llanelli yw enillydd Gwobr Goffa Wil Petherbridge eleni.

Cyfieithydd ar ei liwt ei hun yw Tudur Jones ac mae ei waith yn cynnwys gweithio i Trywydd, un o wasanaethau Menter Bro Dinefwr. Yn enedigol o Aberystwyth, cafodd ei addysg yn Ysgol Maes Garmon yn yr Wyddgrug. Dychwelodd i Aberystwyth ac ennill gradd gyfun mewn Cymraeg ac Athroniaeth yn 1977. Wedi cyfnod fel cyfieithydd yng Ngholeg Llyfrgellwyr Cymru, treuliodd tua 15 mlynedd yn y byd gwleidyddol gyda Phlaid Cymru, cyn dychwelyd i fyd cyfieithu yng nghanol y nawdegau.

"Rydym yn llongyfarch Tudur yn wresog iawn ar ei gamp ac ar yr un pryd yn ymfalchïo ein bod yn cofio am gyfaill a chydweithiwr annwyl iawn y bu ei golli'n ergyd drom iawn i ni i gyd," meddai Berwyn Prys Jones, Cadeirydd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Cyflwynir Gwobr Goffa Wil Petherbridge yn flynyddol gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru er cof am gyn-Ysgrifennydd y Gymdeithas ac arloeswr ym myd cyfieithu yng Nghymru. Fe'i rhoddir i'r ymgeisydd gorau am Aelodaeth Sylfaenol y Gymdeithas, cyfieithu i'r Gymraeg, yn ystod y ddwy rownd arholi a gynhaliwyd yn Hydref 2007 ac Ebrill 2008.

Enillydd cynta'r wobr, Sarah Astley o'r Drenewydd, fydd yn cyflwyno'r wobr i Tudur Jones. Cynhelir y seremoni ddydd Gwener Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cylch am hanner dydd ar stondin Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

- **I gael gwybod rhagor, cysylltwch â Geraint Wyn Parry, Prif Weithredwr Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru - 07872 102944**

- **Mae stondin Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru - rhif 616-617 - gyferbyn â Theatr y Maes a Bant a la Cart**

English copy overleaf . . ./